PAPUR WYTHNOSOL YR ANNIBYNWYR CYMRAEG

# Y TYST

Sefydlwyd 1867 | Cyfrol 158 | Rhif 5 | Ionawr 30, 2025 | 50c.




# Eglwys Nebo, Felindre, Abertawe: daucanmlwyddiant 1824–2024



Cynhaliwyd oedfa arbennig i ddathlu'r ddau ganmlwyddiant ar ddydd Sadwrn 19 Hydref. Y llywydd oedd y Parchedig Meirion Evans, Porth Tywyn, un o blant Eglwys Nebo. Braf oedd croesawu cynulleidfa gref o aelodau a ffrindiau gydag un o'n haelodau hynaf, sef Mrs Eiluned Thomas, ddaeth atom o Aberystwyth i ymuno yn y dathlu. Dechreuwyd yr oedfa a'r alwad i addoli gan y Parchedig Neil Perrington. Gwahoddwyd y Parchedig Llewelyn Picton Jones o eglwys Hope-Siloh, Pontarddulais i ddarllen o'r ysgrythur gan gofio i gynifer o bobl Nebo symud i'r Bont ar hyd y blynyddoedd a dod yn aelodau gwerthfawr yn Siloh a'r Hope. Cyn iddo ein harwain mewn gweddi rhannodd y Parchedig Guto Prys ap Gwynfor ychydig o hanes ei deulu sef rhai o aelodau cynharaf Nebo, ac yn benodol, James Evans neu Jâms y Gwehydd. Un o'r tri mab iddo godwyd i'r weinidogaeth oedd y Parchedig Ben Evans, Tabernacl Y Barri, sef hen dad-cu i'r Parchedig Guto Prys. Dywedir bod Jâms Evans yn gymeriad cryf, yn Annibynnwr selog, ac fe all mai ef fu'n gyfrifol am y geiriad hynod ar y maen ger y drws, sef Nebo, Capel yr ANYMDDIBYNWYR. Ni *wyddom* am unrhyw gapel arall trwy Gymru oll sydd yn arddel yr enw.

### Cyfraniadau

Cafwyd gair o groeso a pheth hanes diddorol gan Nia Johns, ein trysorydd a Helen Williams, un o'r diaconiaid. Darllenwyd cyfarchion i'r eglwys wrth ein cyn weinidog, y Parchedig Gareth Mathias, a hefyd wrth Mrs Christine Pugh gweddw'r diweddar Barchedig Owen Watcyn Pugh. Anfonwn ein cofion anwylaf at un arall o gyn weinidogion Nebo sef y Parchedig E. T. Stanley Jones, Cwmafon, sydd erbyn hyn gyda'r hynaf o weinidogion yr Annibynwyr.

Cyflwynwyd anrheg i'r Parchedig Meirion Evans a Mrs Thelma Evans gan Nia Johns, ar ran yr eglwys i gydnabod eu cefnogaeth ddiflino dros y blynyddoedd. Cyflwynwyd cyfarchion Cyfundeb Gorllewin Morgannwg gan y cadeirydd Dr Dai Lloyd, a chawsom ganddo neges gref a goleuedig i roddi gobaith inni wrth edrych at ein dyfodol. Croesawyd Aldwyth Rees Davies, merch y diweddar Barchedig Gwyn Eifion Rees i'r pulpud i ddweud gair ar ran y teulu. Braf oedd clywed ei hatgofion bore oes am weinidogaeth ei thad yn Nebo. Fe'n diddanwyd gan Eiri Evans-Jones, organyddes Nebo a Rhian Harries, organyddes Salem mewn deuawd, gydag Ian Lewis yn cyfeilio wrth yr organ.

### Gair gan y llywydd

Yn ystod neges y llywydd, y Parchedig Meirion Evans, clywsom am hanes Nebo a chael blas ar gynnwys yr ysgrif o'i waith 'Hanes Nebo Felindre, golwg ar ddwy ganrif'. Mae rhan gyntaf y gwaith, sy'n cofnodi hanes y ganrif gyntaf, wedi ei chodi gair am air o lawysgrif ysgrifennydd yr eglwys, William Evans Coed Cae Croes, adeg y canmlwyddiant yn 1924. Yr oedd yntau'n hen dad-cu i'r llywydd a diolch i'r teulu am ddiogelu'r ysgrif wreiddiol.

*parhad ar dudalen 2*



*Yn y llun: Parchg Guto Prys ap Gwynfor, Parchg Llewelyn Picton Jones, y llywydd y Parchg Meirion Evans, Dr Dai Lloyd, Parchg Neil Perrington*

## Ymddiheuriad

Oherwydd problemau technegol ni fu'n bosib cael mynediad i e-byst y tyst@annibynwyr.cymru am gyfnod o wythnosau ar ddiwedd 2024. O ganlyniad i hyn nid ymddangosodd cyfraniadau gwerthfawr gan gyfranwyr.

Ymddiheurwn yn fawr i chi am yr amryfusedd hwn. Byddwn felly yn eu cynnwys yn ystod y pythefnos nesaf.

Ar yr un pryd hoffem ddiolch am y cynnydd fu yn ddiweddar yn y nifer o gyfraniadau a dderbyniwn gan eglwysi ac unigolion. Mae hyn yn galondid yn enwedig wrth glywed am yr hyn sydd yn digwydd trwy Gymru benbaladr.

**Golygydd**

# Penderfyniadau

**Undeb yr Annibynwyr Cymraeg**

## Y Cyfarfodydd Blynyddol 2025

Cyfundeb Llŷn ac Eifionydd
Canolfan Nant Gwrtheyrn
25–27 Mehefin

Rhaid i rybudd o bob penderfyniad sydd i'w gyflwyno yn y gynhadledd eleni gyrraedd yr Ysgrifennydd Cyffredinol erbyn 9 Mai, fan pellaf, wedi ei lofnodi gan ei gynigydd a'i eilydd.

# Eglwys Nebo, Felindre, daucanmlwyddiant 1824–2024 – *parhad*

Ymhlith y gynulleidfa oedd un sydd, ynghyd a'i deulu, bob amser yn barod ei gefnogaeth i'r eglwys a'r pentref, sef y Prifardd Emyr Lewis. Diolch am ei gymwynas werthfawr yn ein hanrhydeddu gyda'r englyn hwn. Erbyn hyn y mae wedi ei ddylunio yn hardd yn ei ffrâm:

Rhaid yw dweud ar hyd y daith – hir, mor hir,
gylch yr haul ddauganwaith,
er inni fynd siwrne faith,
eto mae Nebo'n obaith.

I ddiweddi'r oedfa darllenodd y Parchedig Gerald Jones eiriau'r emyn a gyfansoddwyd gan y Parchedig Meirion Evans ym 1996. Fe'i canwyd ar y dôn 'Blaenwern':

Pwy sy'n seinio'r Haleliwia,
anthem moliant iddo Ef?
B'le mae'r dorf â'i phêr Hosanna
i groesawu Brenin Nef?
Rho in glywed eto'r alwad
i ymuno yn y côr
sydd yn canmol Iesu'r Ceidwad,
yn dyrchafu enw'r Iôr.

Diolch am y doniau daniwyd
i foliannu D'enw glân.
Diolch am y Gair bregethwyd
i roi Cymru oll ar dân.
Llifed dyfroedd doniau newydd
i felinau Eglwys Dduw,
a phan dry y rhod bydd clodydd
mewn acenion ieuanc byw.

O! Rho daw ar dwrf anghyfiaith
sydd yn boddi D'eiriau glân.
Datod rwymyn tyn amheuaeth
sydd yn bygwth tagu'r gân.
Arglwydd, agor ein calonnau
a rhyddha'r tafodau mud,
nes bod atsain ein hanthemau
yn distewi lleisiau'r byd.

Diolch i'r Parchedig Meirion Evans ac i bawb a fu'n weithgar yn paratoi ar gyfer yr oedfa arbennig yma. Cawsom brynhawn bendithiol bythgofiadwy gyda gwledd ardderchog i ddilyn yn neuadd y pentref. Awn ymlaen yn hyderus yn nerth y Nef i gadw'r golau i lewyrchu ar gopa bryn Nebo.

**Helen Williams**

# PENCADER Tabernacl

Bu cyflwyniad cwrdd Nadolig plant ac ieuenctid Clwb Sul Tabernacl Pencader ychydig yn wahanol i'r arfer ar Sul 22 Rhagfyr. Cyflwynwyd yr emynau, y darlleniadau a'r gweddïau gan yr ieuenctid. Yng ngolygfa gyntaf y ddrama roedd Fflur, Anest, Soffi, Mili and Zuzia yn nyrsio yn ward mamolaeth ysbyty Glangwili, ac yn achwyn ychydig gyda nifer y babanod a anwyd ar ddydd Nadolig. Cyn gorffen eu shifft brynhawn gwnaeth Anest a Soffi wahodd y tair arall 'nôl i'w tŷ am baned. Wedi i'r tair gyrraedd, gwnaeth y teledu dorri lawr, ac yn sydyn cafwyd *newsflash*. Roedd y plant wedi ffilmio Elsi, a hi fu'n cyflwyno'r newyddion ar y teledu, sef:

A nawr rhaid i ni fynd draw i Fethlehem. Rhyw awr neu ddwy yn ôl gwelwyd seren arbennig yn yr awyr – seren debyg iawn i gomed Halley, seren nad yw'r seryddwyr wedi ei gweld erioed o'r blaen. Safodd y seren uwchben hen sied o fwd a chlai tu allan i'r dref. Ac yn y sied ynghanol gwair a dwst mewn dillad baban, cafwyd baban bach tlawd gyda'i dad a'i fam yn gwylio drosto. *Credir mai'r baban yma yw rhodd Duw i'r byd*.

Ac yna cafwyd darlleniad am fab Duw ei hun, yn dod atom ni yn yr unfed ganrif ar hugain, yn torri drwy'n gwledda, ein diota, ein bydolrwydd, yn ei garpiau ac yn dweud dyma'r Nadolig, fi ydi'r rhodd. Cyn y medr unrhyw un ohonom ninnau weld gwerth mewn rhodd mae'n



rhaid derbyn y rhodd a dweud diolch. A'r plant yn canu eu cân o ddiolch:

Welsoch chi y Brenin yn Ei grud
Sut y gallwch fod mor fud?
Canwn foliant iddo EF
Gyda'n gilydd ag un llef.

Cofiwch gyda ni'r Nadolig hwn,
Os bydd baich y byd yn drwm,
Canwn gân i'r Iesu da,
Fe gawn obaith a barha.

Diolch, diolch, diolch i Ti
Diolch, diolch, diolch i Ti
Diolch, diolch, diolch i Ti
Am ddod i'n daear ni.

Hefyd yn cymryd rhan oedd Celyn, Magi, Gruffydd, John Henri, John Arwel, Enid, a Tomos.

Ar ddiwedd y gwasanaeth anrhegwyd y plant am eu ffyddlondeb cyson i'r ysgol Sul, ac am eu parodrwydd i gymryd rhan beth bynnag yw'r achlysur. Diolchwyd i'r rhieni am gludo'r plant o bell ac agos. Diolchwyd hefyd i Marc Jones am ddysgu'r plant i ganu. I orffen prynhawn hyfryd aeth pawb i'r festri i gael te Nadolig oedd wedi ei baratoi gan wragedd yr eglwys a rhieni'r plant.

**Haulwen Lewis**

Yr Adran
Gydenwadol

IONAWR 30 2025 RHIF 205

# Cyrsiau a chyfleon yng Ngholeg y Bala ym mis Chwefror

**ADUNIAD Souled Out**
**7–9 Chwefror**
i bobl ifanc 15+ a myfyrwyr
Am fwy o wybodaeth, ewch i wefan Souled Out.
https://souledoutcymru.net/aduniad/




**CWRS IEUENCTID: 21–3/02/25**
**(Blynyddoedd Uwchradd 7–10)**
Penwythnos ar ddechrau hanner tymor Chwefror i ieuenctid o Flynyddoedd Uwchradd 7–10. Bydd yn benwythnos llawn gemau, crefft, chwaraeon, nofio, *inflatables*, cerddoriaeth, ymlacio gyda ffrindiau yn y *games room*. Ac fel bob amser sesiynau bywiog yn edrych ar y ffydd Gristnogol a sut mae'n berthnasol i ni heddiw. Mi fedrwch archebu lle i'ch plentyn heddiw fan hyn.

**CHWALFA CHWEFROR: 26–7/02/25**
**(plant 8–11 oed)**
Dros y dau ddiwrnod bydd gemau, nofio, crefft, canu, chwaraeon, ymlacio yn y *games room* yn chwarae gemau cyfrifiadur, pŵl, hoci awyr a phêl-fasged. Ac fel bob amser byddwn yn edrych ar straeon o'r Beibl sy'n dangos i'r plant faint mae Duw yn eu caru. Gallwch archebu lle i'ch plentyn heddiw fan hyn.




Os nad yw'n bosibl i chi archebu ar-lein neu os oes gennych chi unrhyw gwestiwn, plis cysylltwch â ni ar: colegybala@ebcpcw.cymru / 01678 520565 ac fe wnawn ni bostio copi o'r ffurflen gofrestru atoch chi.

Ni ddylai talu am gwrs fod yn rhwystr i unrhyw un ddod atom i'r Bala. Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â'ch arweinydd lleol neu ag Angharad yng Ngholeg y Bala.

## Blwyddyn Gap Coleg y Bala '25–'26



**Beth ydy Blwyddyn Gap?**

Mae'r Flwyddyn Gap yn gwrs ymarferol mewn meithrin disgyblion ac yn para blwyddyn fel arfer (Medi–Awst). Mae wedi ei leoli yng Ngholeg y Bala, Canolfan Plant ac Ieuenctid Eglwys Bresbyteraidd Cymru. Eleni rydyn ni'n agored i geisiadau am y flwyddyn gyfan neu am ychydig fisoedd, gan ddibynnu ar sefyllfa'r unigolyn. Am sgwrs anffurfiol, mae croeso i chi ffonio Siân ar 07748843946.

**Amcanion**
Amcanion y Flwyddyn Gap yw:

- annog datblygiad personol ac ysbrydol
- ymdrechu tuag at fod â chymeriad cynyddol Grist-debyg
- cynorthwyo pob myfyriwr i adnabod ei ddoniau a'i botensial
- datblygu sgiliau arwain, cyfathrebu ac adeiladu tîm effeithiol
- cynorthwyo a galluogi pob myfyriwr i ddirnad pa fath o gyfraniad y gall ei wneud i'r Eglwys.

**Cyfrifoldebau**
Mae'r myfyrwyr yn cael cyfleon i brofi a bod yn rhan o'r gwahanol weithgareddau sy'n ymwneud â gwaith Coleg y Bala. Mae hyn yn cynnwys:

- paratoi a chyflwyno Cristnogaeth i blant ac ieuenctid mewn ffordd berthnasol a chyfoes ar gyrsiau penwythnos, haf a chanol wythnos
- mynychu cyfarfodydd tîm: cymryd rhan yng ngwasanaeth dyddiol y ganolfan ac arwain yn achlysurol



- cynorthwyo gyda gwaith gweinyddol y ganolfan fel bo'r angen.

Mae cyfleon i'r myfyrwyr gymryd rhan mewn gweithgareddau plant ac ieuenctid tu allan i Goleg y Bala hefyd – rhai sy'n cael eu cynnal gan rai o weithwyr eraill Eglwys Bresbyteraidd Cymru. Mae hyn yn cynnwys paratoi a chymryd rhan yn y gweithgareddau canlynol:

- clybiau plant ac ieuenctid
- grwpiau rhanbarthol Souled Out
- gwasanaethau mewn ysgolion
- cenhadaeth leol
- ysgolion Sul
- gwasanaethau boreol mewn ysgolion cynradd ac uwchradd
- undebau Cristnogol.

Caiff y myfyriwr gyfarfodydd rheolaidd gydag aelod parhaol o'r staff er mwyn archwilio'r dyddiadur a threfnu rhaglen waith addas.

**Profiad o weithio mewn meysydd eraill**
Yn ystod y flwyddyn, caiff y myfyriwr gyfle i weithio gydag arweinwyr neu weithwyr eglwysig mewn ardaloedd eraill. Gan ddibynnu ar y lleoliad, caiff y myfyriwr brofiadau amrywiol o weithio gyda phlant ac ieuenctid, ysgolion, oedolion a theuluoedd, yn ogystal â chyfle i ddatblygu dealltwriaeth o rai agweddau ar waith bugeiliol ac arweinyddiaeth.

**Mentora**
Bydd pob myfyriwr yn derbyn mentora unigol yn ystod y Flwyddyn Gap. Amcan y broses hon yw cefnogi duwioldeb a chymeriad Cristnogol pob myfyriwr.

**Byw**
Fe fydd y myfyrwyr gap yn byw i fewn yn y Coleg ac yn derbyn lwfans wythnosol tuag at eu costau byw.

**Diddordeb?**
Os oes gennych chi ddiddordeb mewn bod yn fyfyriwr Blwyddyn Gap, cysylltwch â Choleg y Bala am wybodaeth bellach neu lawrlwythwch y ffurflen gais. Dyddiad cau blwyddyn gap 2025–26 yw diwrnod olaf mis Chwefror.

Undeb Bedyddwyr Cymru
The Baptist Union of Wales

## Swydd ar gael: Uwch Swyddog Cyllid: Ymunwch â'n Cenhadaeth

A ydych yn Swyddog Cyllid profiadol sy'n dymuno gwneud gwahaniaeth fel rhan o fudiad Cristnogol deinamig? Mae Undeb Bedyddwyr Cymru yn eich gwahodd i wneud cais am gyfle cyffrous ar gyfer Uwch Swyddog Cyllid mewn cyfnod trawsnewidiol hollbwysig.

Yn y swyddogaeth hon, byddwch yn rhan annatod o dîm ymroddedig sy'n darparu cefnogaeth ac arweiniad hanfodol i'n Cymanfaoedd a'n Heglwysi ar draws Cymru. Bydd eich cyfrifoldebau yn cynnwys dyletswyddau cadw cyfrifon ond, yn ogystal, byddwch yn chwarae rôl allweddol yn llunio strategaeth gyllid gynhwysol yn unol â'n hamcanion Cristnogol.

**Lleoliad**: Caerfyrddin ond gyda hyblygrwydd i weithio gartref. Disgwylir presenoldeb cyson mewn cyfarfodydd yng Nghaerfyrddin ac mewn lleoliadau eraill.

Bydd yr ymgeisydd delfrydol yn gwbl ymroddedig i genhadaeth Undeb Bedyddwyr Cymru ac yn medru'r Gymraeg a'r Saesneg.

Os ydych yn barod i rannu eich arbenigedd gyda mudiad Cristnogol a chynorthwyo i ddatblygu ein gweledigaeth ariannol, hoffwn eich annog i gyflwyno cais. Ymunwch â ni yn ein hymrwymiad i wasanaethu cymunedau ar draws Cymru.

Ymgeisiwch nawr a byddwch yn rhan o'n taith drawsnewidiol!

**Cyflog: Tua** £40,000–£42,000 i'w drafod ac yn gymesur â chymwysterau a phrofiad.

**Oriau**: 35 yr wythnos

Croesewir ceisiadau rhannu swydd

**Dyddiad Cau**: Dydd Llun, 10 Chwefror 2025

**Dyddiad Cyfweld**: Dydd Mawrth, 25 Chwefror 2025

Am wybodaeth bellach cysyllter â'r Ysgrifennydd Cyffredinol, y Parchg Judith Morris, ar 0345 222 1514 neu judith@ubc.cymru

Eglwys Bresbyteraidd Cymru

## Henaduriaeth Ceredigion a Gogledd Penfro
## Galluogwr Cenhadol ar gyfer ardaloedd gwledig de'r Henaduriaeth

Mae'r Henaduriaeth yn chwilio am unigolyn i ysgogi cenhadaeth a hyrwyddo'r dystiolaeth Gristnogol yng nghefn gwlad De Aberteifi a Gogledd Penfro.

**Oriau:** 35 awr yr wythnos
**Cytundeb:** 3 blynedd yn y lle cyntaf, gyda'r 6 mis cyntaf yn gyfnod prawf.
**Cyflog:** Band 31– 35 (£32,150–£34,043) ar raddfa cyflog EBC neu uwch, gan ddibynnu ar lefel cymwysterau a phrofiad. Bydd cyfle i ymuno â Chynllun Pensiwn EBC.

**Lleoliad:** Gweithio o gartref. Fodd bynnag, fe all y bydd gofyn i chi weithio o leoliadau eraill o bryd i'w gilydd.

Mae'r swydd hon yn amodol ar ddatgeliad DBS manwl a dau eirda boddhaol, ac mae gofyniad galwedigaethol Cristnogol a'r iaith Gymraeg yn berthnasol ar gyfer y swydd hon.

Am fwy o wybodaeth, ac am ffurflen gais, cysylltwch ag: e-bost – swyddfa.office@ebcpcw.cymru; ffôn: 02920 627465

**Dyddiad cau: 22 Mawrth 2025, 4pm.**

S4C

***Dechrau Canu, Dechrau Canmol***
**Sul, 2 Chwefror, am 7:30yh –**
**Gardd Fotaneg Cymru**
Bydd Nia Roberts yn ymweld â Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru yn Llanarthne, sy'n dathlu chwarter canrif eleni. Gyda pherfformiadau gan Gôr Canna a Rhian Roberts


BBC radio cymru

***Caniadaeth y Cysegr***
**Sul, 2 Chwefror, am 7:30yb a 4:30yp**
Amrywiaeth o emynau yng nghwmni Hywel Gwynfryn

***Oedfa Radio Cymru***
**Sul, 2 Chwefror, am 12:00yp**
Oedfa ar Ŵyl Fair y Canhwyllau dan ofal Rosie Dymond, Clynnog Fawr

## *Llyfr y Pregethwr*

**Yn ystod y tymor hwn byddwn yn astudio Llyfr y Pregethwr gyda'n gilydd dan arweiniad y Parch. Ddr Alun Tudur, gan ddefnyddio cyfrol y diweddar Gareth Lloyd Jones, *Dehongli Bywyd Ruth a Llyfr y Pregethwr* yn ganllaw.**




**Astudiaeth 4: Siomedigaethau di-rif**

**Llyfr y Pregethwr 1:12 –2:26**

Wedi iddo sôn am oferedd bywyd, mae'r Pregethwr yn cyflwyno'i hun ac yna rhydd ddisgrifiad llawn o'i orchestion a'i brofiadau.

**Brenin Jerwsalem**

Yn adnod 1:12 dywed, "Roeddwn i, yr Athro, yn frenin ar wlad Israel yn Jerwsalem." (beibl.net) Nid yw'n enwi ei hun ond y mae'n nodi eto mai ef oedd brenin Israel. Tybiwyd yn draddodiadol mai'r brenin Solomon ydoedd. Ond yna fe ymhelaetha trwy gyfeirio at ei feddiannau a'i lwyddiannau. (Ceir disgrifiad eithaf manwl o olud Solomon a'i fywyd bras, ynghyd â chyfeiriad at ei ddysg a'i ddoethineb, yn Llyfr Cyntaf y Brenhinoedd.) Y mae'n amlwg yn ŵr cyfoethog, addysgedig, ond eto nid yw hyn yn ei fodloni:

> Pe cawn y ddaear gron,
> A'i holl bleserau hi,
> Mae heddwch Duw o dan fy mron
> Yn ganmil gwell i mi.

Mae'r Pregethwr yn ceisio darganfod beth o unrhyw werth sydd gan y byd i'w gynnig i un mor ddoeth a goludog. Mae i adran gyntaf yr hunangofiant ddwy ran, y naill a'r llall yn diweddu â dihareb neu ddywediad poblogaidd (1:12–15, 16–18). Dywed y Pregethwr iddo benderfynu ceisio deall y byd y mae'n byw ynddo trwy ddefnyddio doethineb i fyfyrio ar bob dim 'sy'n digwydd dan y nef'. Ond wrth edrych yn ôl, daw'n amlwg iddo mai rhwystredig iawn fu pob ymgais i wneud synnwyr o fywyd: 'gorchwyl diflas' (1:13) fu'r holl chwilio gan mai arwain at flinder a syrffed a wnaeth ei ymdrechion.

Daw i'r casgliad na all newid y drefn; mae'n gwadu un o brif egwyddorion y traddodiad proffwydol, sef mai ewyllys Duw yw bod anghenion pawb yn cael eu diwallu. Mae'n ymwybodol iawn o ddrygioni'r byd. Ond mae'n ymateb iddo mewn dull tra gwahanol i'r proffwydi. Mae'n ymylu ar roi'r ffidil yn y to, cystal â dweud, "Mae'n debyg y bydd Duw yn barnu'r drwgweithredwyr ryw ddiwrnod; ond yn y cyfamser ni ellir gwneud dim i wella'r sefyllfa. Felly ofer yw cwyno."

**Oferedd bywyd bras**

Fel paratoad ar gyfer menter mor uchelgeisiol ag 'astudio a chwilio ... y cyfan sy'n digwydd dan y nef' (1:13), dywed yr awdur iddo dreulio amser maith yn eistedd wrth draed yr athrawon mwyaf dysgedig er mwyn profi 'llawer o ddoethineb a gwybodaeth' (1:16). Mae'n brolio ei hun, ond cafodd ei siomi gan na lwyddodd doethineb a gwybodaeth hyd yn oed i ddiwallu ei chwilfrydedd. Roedd wedi gobeithio'u defnyddio i ddatrys dirgelwch bywyd. Ond gan na chafodd unrhyw gymorth ganddynt, ni wêl fantais i'r doeth a'r dysgedig (1:17–18).

Er hynny, mae'n parhau i chwilio am atebion, y tro hwn trwy droi ei sylw at bleser, er mwyn gweld a oes i hwnnw unrhyw werth parhaol. Y ddedfryd yw nad yw 'pleser yn dda i ddim' (2:1). Yn dilyn, cawn ddisgrifiad manwl o'r hyn a wnaeth wrth chwilio amdano. Mae'n dechrau drwy yfed gwin, ac yna cawn restr faith o'r gweithgareddau, y meddiannau a'r profiadau a fyddai'n rhan o fywyd unrhyw lys brenhinol (2:1–11). Dywed iddo gael pleser o godi tai godidog iddo'i hun, plannu gwinllannoedd, creu llynnoedd a chynllunio gerddi. Roedd ganddo weision i ofalu am ei stoc enfawr o wartheg a defaid; cantorion i'w ddifyrru; a mwy o ordderchwragedd na dyddiau yn y flwyddyn. Yn ei bortread o fywyd gwag y brenin, fe welwn ninnau hefyd yr un nodweddion mewn rhai arweinyddion heddiw a'u pwyslais ar olud a bydolrwydd.

**Diwallu gwanc**

Mae'r Pregethwr yn crynhoi'r cwbl drwy ddweud iddo ddiwallu pob gwanc a manteisio ar bob peth a roddai bleser iddo, gan ddal gafael mewn doethineb (2:9). Er nad ydyw'n ddim nes at ddirnad cwrs y byd, cafodd foddhad mawr o'i lafur; a'r boddhad, nid yr elw, oedd ei dâl am yr holl waith (2:10). Yn ei farn ef, ni fyddai ceisio dal gafael ar y ffordd hon o fyw yn arwain i unman.

Wrth ystyried cymaint fu'r llafur er mwyn cael mwynhad mewn bywyd, mae'n ateb y cwestiwn a ofynnodd yn 1:3: 'Pa elw sydd i neb yn ei holl lafur ...?' Daw i'r un casgliad ag o'r blaen: 'nad oedd y cyfan ond gwagedd ac ymlid gwynt, heb unrhyw elw dan yr haul' (2:11). Er gwaethaf ei gyflawniadau a'r pleser a gafodd ohonynt, ni wêl ddim a fyddai'n cyfrif fel coron ar ei ymdrechion. Serch hynny, nid yw'n gwbl amlwg pam mae'n dweud fod ei holl lafur yn diflannu mewn pwff o fwg; rhaid mynd ymlaen i'r adran nesaf i ddarganfod hynny.

**Be 'dych chi'n feddwl?**

1. Beth mae'r Pregethwr yn ei olygu wrth ddweud, "Rôn i'n mwynhau'r gwaith caled, a dyna oedd fy ngwobr i am fy ymdrech" (2:10). Wyt ti wedi profi hyn?
2. Ym mha ffordd y mae tebygrwydd rhwng y disgrifiad o chwenychu pleser, sydd ym mhennod 2, a'n cyfnod ni? Ai peth da neu ddrwg ydy hyn?




Cliciwch ar y poster uchod er mwyn gweld yr adnoddau sydd ar y wefan, neu ewch i www.gair.cymru

I weld y cyhoeddiad digidol *Cenn@d* yn llawn, dilynwch y ddolen hon: www.cennad.cymru
(Cyhoeddir *Cenn@d* ar ran Undeb Bedyddwyr Cymru ac Eglwys Bresbyteraidd Cymru, a rhennir tudalennau cydenwadol y cyhoeddiad ag Undeb yr Annibynwyr Cymraeg)

# CAPEL GWYDDGRUG
## Cymanfa Bwnc 27 Hydref 2024

Odi, wir, mae’r gymanfa bwnc yn dal i fynd yn y cylch yma ers dros 70 mlynedd. Tro capel Gwyddgrug oedd hi eleni. Mae’r cylch yn cynnwys capeli Gwyddgrug, Gwernogle a’r Tabernacl, Pencader.

Ein holwr eleni oedd y Parchg Chris Bolton, gweinidog gofalaeth Bröydd Teifi. Wyneb cyfarwydd i ni i gyd a gwnaeth i bawb deimlo’n gartrefol. Llywyddwyd y cyfan mor rhwydd gan Betsan Jones, un o ferched eglwys Gwyddgrug a oedd wedi bod mewn sawl cymanfa bwnc pan oedd yn blentyn. Gwnaed y rhannau arweiniol a’r casgliad gan Einir George a Gwennan Owen – plant a fu’n ffyddlon i ysgol Sul Gwyddgrug. Offrymwyd gweddi gan Chris Bolton, ef hefyd a arweiniodd y canu wrth yr organ a chafodd y gorau allan o’r oedolion a’r plant.




Tro yr oedolion oedd gyntaf. Trafodwyd pennod Genesis 28, lle y sonnir am freuddwyd Jacob a chafwyd ymateb gan y gynulleidfa. Tro’r plant wedyn i drafod Joseff a’i frodyr. Erbyn hyn dim ond un ysgol Sul sydd yn y cylch, sef un y Tabernacl. Braf oedd gweld cynifer o blant yn bresennol. Diolch i’r rhai a fu yn eu dysgu. Cafodd yr holwr ymateb da a hyderus gan y plant a chafodd hwyl yn eu cwmni.

I ddilyn cafwyd cyfle i gymdeithasu dros baned a chyfle i ddal i fyny a chael clonc. Diolch i bobl Gwyddgrug am y te blasus fel arfer a diolch i’r rhai fu’n addurno’r capel ymlaen llaw.


Gobeithio y byddwn yn cadw’r gymanfa bwnc i fynd am flynyddoedd i ddod.

**Sioned a Verona Evans**

# Myfyrdodau’r Parchg Gerwyn Jones

Ond ydyw’n rhyfedd fel mae’r Cyfnod Clo wedi dod yn rhyw fath o garreg filltir ym mywydau pawb a phopeth. Rydych yn clywed o hyd ‘cyn y cyfnod clo roeddem yn ...’ neu ‘yn ystod y cyfnod clo arferem ...’ neu, ‘ar ôl y cyfnod clo dyw pethau ddim ...’

Tybed beth ddigwyddodd yn eich capel chi yn ystod y cyfnod clo? Yn y Tabernacl Porth-cawl daeth yn gyfnod pwysig yn ein hanes. Ar y pryd roeddem yn ddiweinidog ond ddim yn ddiarweiniad, diolch i’r Parchg Gerwyn Jones. Roedd ef a’i wraig Cathy wedi ymaelodi gyda ni wedi iddynt symud i Borth-cawl i fyw. Gan ein bod yn ddiweinidog roedd yn barod wedi cymryd at ddyletswyddau fel llanw’r pulpud yn achlysurol a chymryd ein dosbarth Beiblaidd. Ond dros y cyfnod clo gwnaeth ei gymwynas fwyaf gwerthfawr â ni fel cynulleidfa. Paratôdd fyfyrdod ar ein cyfer bob wythnos, a hynny yn ddwyieithog. Yn ddi-ffael, erbyn bob Sul, roedd Gerwyn wedi paratoi myfyrdod a’u hanfon at yr aelodau. I gyd fe dderbyniom dros chwe deg o fyfyrdodau ganddo. Nid tasg fechan oedd hon o gwbl ac roeddem i gyd yn gwerthfawrogi ei ddycnwch a’r dyfalbarhad yn fawr.




Yn anffodus dirywiodd iechyd Gerwyn ac fe’i collom ym mlwyddyn gyntaf gweinidogaeth ein gweinidog y Parchg Dylan Rhys Parry.

Yn gynnar wedyn, trafodom fel swyddogion sut y gallem ddangos ein diolch i Cathy a Rhiannon, merch Gerwyn, am yr holl waith a wnaeth dros y cyfnod clo. Ein penderfyniad oedd dewis dwsin o’i fyfyrdodau a’u cyhoeddi mewn llyfryn i gofio am gyfraniad enfawr Gerwyn i eglwys y Tabernacl Porth-cawl.

Do, fe gymerodd amser i gael y maen i’r wal, ond o’r diwedd mae’r llyfryn wedi ei gyhoeddi, Fel cyd-ddigwyddiad roedd ein cyfundeb, Cyfundeb Dwyrain Morgannwg, yn cynnig grant i eglwysi i wneud rhywbeth newydd. Felly diolch i’r cyfundeb am ariannu’r rhan helaethaf o’r gost o gyhoeddi’r llyfryn.

Erbyn hyn mae pob aelod wedi derbyn copi i’w drysori. Rydym hefyd wedi sicrhau fod copïau ar gael i eglwysi ein cyfundeb. Ond rydym yn awyddus i gyhoeddi fod copïau ar gael i ffrindiau’r Parchg Gerwyn Jones o’r eglwysi eraill buodd yn gweinidogaethu arnynt.

Cysylltwch gyda Thŷ John Penri gan ein bod wedi sicrhau fod copïau ar gael yno hefyd, neu cysylltwch â fi, Tom Price ar (01656) 742 768. Mae’r copïau’n rhad ac am ddim.

**Tom Price**

# Golygyddol

## Gair o ddiolch



Rydw i am ddiolch yn fawr i Hywel Wyn Richards, Pen-y-bont ar Ogwr am y llythyr a anfonodd i'r *Tyst* rai wythnosau'n ôl yn gofyn ar i'r gwahanol gyfundebau ystyried enwebu lleygwr/wraig yn Ysgrifennydd Cyffredinol Undeb yr Annibynwyr Cymraeg i'r dyfodol. Daw galw ar i'r cyfundebau wneud hynny yn ystod yr wythnosau nesaf. Diolch am neges y llythyr oherwydd rwy'n teimlo ei bod yn neges bwysig ar ein cyfer heddiw.



### Cofio'r gorffennol

Cyfarfodydd Blynyddol 1983 yn Hen Golwyn oedd y rhai cyntaf i mi eu mynychu yn laslanc 19 oed a'm golwg ar y weinidogaeth Gristnogol. A chan fod fy nhad yn weinidog yn Hen Golwyn a Chyffordd Llandudno ar y pryd, a chan fy mod innau'n gerddorol, gofynnwyd i mi fod yn organydd y cynadleddau yno. Doedd Ebeneser, addoldy'r Annibynwyr yn Hen Golwyn ddim yn ddigon mawr i gynnal y cyfarfodydd, ac felly defnyddiwyd Bethesda, addoldy eang y Methodistiaid Wesleaidd i'w cynnal. O'r flwyddyn honno 'mlaen sylweddolais cymaint oedd cyfraniad yr Ysgrifennydd Cyffredinol. Derwyn Morris Jones oedd yr Ysgrifennydd cyntaf hwnnw i mi ei adnabod, a bu wrthi am flynyddoedd maith. Parhaodd fy mharch dyfnaf i'r tri Ysgrifennydd a'i dilynodd – Dewi Myrddin Hughes, Geraint Tudur a Dyfrig Rees.

Ac yr oedd yn yr wythdegau, a chyn hynny, wrth gwrs, gynulleidfaoedd sylweddol o gynadleddwyr blynyddol, fel ag y bu hyd yn gymharol ddiweddar. Yn wir, yn ystod fy ngweinidogaeth, yr wyf wedi bod a rhan mewn trefnu pedwar o'r cyfarfodydd blynyddol: Llŷn ac Eifionydd 2003 yng Nghricieth, ac eto yn 2015 yn Nant Gwrtheyrn; Rhyd-y-main a'r Cylch yn 2019, a daw'r Cyfarfodydd Blynyddol yn ôl eto eleni (2025) i Lŷn ac Eifionydd ac i Nant Gwrtheyrn.

### Y presennol

Fi fyddai'r cyntaf i gydnabod nad ydw i wedi bod yn bresennol ym mhob un o'r cyfarfodydd blynyddol yn ystod y blynyddoedd, ac yr oedd rhesymau personol a theuluol oherwydd hynny. Ond mae'n rhaid cydnabod bod cynulleidfaoedd cyfarfodydd blynyddol yr Undeb wedi gwanhau'n ddirfawr yn ystod y blynyddoedd diwethaf, ac wrth gwrs, dydi hynny ddim yn syndod oherwydd bod cynulleidfaoedd ein heglwysi wedi gwanhau cymaint, a llawer iawn ohonyn nhw wedi peidio a bod bellach.

O ganlyniad mae niferoedd y gweinidogion wedi gwanhau, ac o edrych ar restr y Gweinidogion Mewn Gofal Eglwys ym Mlwyddiadur 2025, fel y mae pethau ar hyn o bryd, mae rhai ohonom yn yr oedran hwnnw sydd o fewn ychydig flynyddoedd i ymddeol, a nifer ohonom bellach â gofal am eglwysi o enwadau eraill, a'r cyfrifoldebau enwadol sy'n deillio o hynny, a chyfrifoldebau hefyd am helpu ardaloedd sy'n gwbl ddiweinidog bellach mewn amgylchiadau megis angladdau a phriodasau ayyb.

### Y dyfodol

Wrth edrych ar y ffeithiau hyn, ac yn sicr y rhai mae Hywel Wyn Richards wedi eu nodi, mae'n allweddol ein bod yn edrych i gyfeiriad newydd wrth enwebu Ysgrifennydd Cyffredinol newydd oherwydd onid ydym ni fel Annibynwyr wedi pwysleisio Offeiriadaeth yr Holl Saint? Yn amlach na pheidio, ni yw'r rhai salaf i gofleidio hynny! Ond rwy'n siŵr o un peth bod yna rhywrai o fewn lleygwyr/wragedd Annibynia heddiw sydd â digon o ffydd yn Iesu Grist, digon o grebwyll, digon o sensitifrwydd (gair arall am ddoethineb), digon o ddoniau gweinyddol (pethau hollol sylfaenol) i ymgymryd â'r swydd hon.

OND cofiwch chi, mi allai'r rhod droi oni bai ein bod yn wirioneddol ofalus, ac y bydd gennym fwy o weinidogion ordeiniedig yn fynychwyr y cyfarfodydd blynyddol nag o leygwyr/wragedd os bydd yr eglwysi'n cau eto i'r dyfodol ar y fath raddfa ag y maent yn ei wneud yn awr! Y gwir amdani, wrth gwrs, ydi bod yn rhaid i'r eglwysi, y cyfundebau a'r Undeb fod yn agored o dan arweiniad yr Ysbryd Glân i wynebu pob cyfnod fel y mae, ac fel y mae pethau *heddiw*. I mi, yr un fath ag i Hywel, fedrwn ni ddim fforddio colli gweinidogion ordeiniedig o'n heglwysi a'n hardaloedd i swydd y medrai lleygwr/lleygwraig ei chyflawni.

**Iwan Llewelyn**



Hyfrydwch oedd cael derbyn Glesni Fflur Jones yn aelod cyflawn o gapel Bethsaida, Mallwyd ar Sul 17 Tachwedd 2024. Pob bendith iddi hi a'i theulu.

**Euron Hughes**

*Erthyglau, llythyrau at y Prif Olygydd:*
Y Parchg Ddr Alun Tudur
39 Dorchester Avenue, Pen-y-lan,
Caerdydd, CF23 9BS
*Ffôn:* 02920 490582
*E-bost:* tyst@annibynwyr.cymru

*Golygyddion*

Y Parchg Iwan Llewelyn Jones
Fronheulog, 12 Tan-y-Foel,
Borth-y-gest, Porthmadog, Gwynedd,
LL49 9UE
*Ffôn:* 01766 513138
*E-bost:* IwanLlew@aol.com

Alun Lenny
Porth Angel, 26 Teras Picton
Caerfyrddin, Sir Gâr, SA31 3BX
*Ffôn:* 01267 232577 /
0781 751 9039
*E-bost:* alunlenny@hotmail.co.uk

*Archebion a thaliadau i'r Llyfrfa:*
Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Parc
Busnes Glanyrafon, Bro Abertawe
ABERTAWE SA7 0AJ
*Ffôn:* 01792 795888
*E-bost:* undeb@annibynwyr.cymru

*Dalier Sylw!*
Cyhoeddir yr Adran Gydenwadol gan Bwyllgor Llywio'r Adran Gydenwadol ac nid gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg. Nid oes a wnelo Golygyddion *Y Tyst* ddim â chynnwys yr Adran Gydenwadol.

# Capel Gellimanwydd, Rhydaman

Mae hi wedi bod yn fis prysur yng Ngellimanwydd gydag amryw gyngherddau a gwasanaethau arbennig.
Ar nos Sul 8 Rhagfyr cynhaliodd côr Persain gyngerdd naw llith a charol. Yna cynhaliwyd gwasanaethau Nadolig Ysgol Parc-yr-hun ac Ysgol Gymraeg Rhydaman yn y capel.

Cafwyd oedfa Nadolig plant yr ysgol Sul oedd ar fore 15 Rhagfyr dan arweiniad Mr Rhys Thomas, a Sarah Rudland yn cynorthwyo. Pan gawsom hanes y garol 'Tawel Nos' a chlywed am y gêm bêl-droed a chwaraewyd ar dir neb yn ystod yr Ail Ryfel Byd adeg y Nadolig a gweld fideo byr wedi ei selio ar y stori gyda 'Tawel Nos' yn cael ei chanu. Arweiniodd y plant ni at y preseb drwy ganu carolau, chaneuon darlleniadau a storïau. A chawsom gofio wir ystyr y Nadolig. Ar ddiwedd y gwasanaeth galwodd Santa Clôs heibio gydag anrheg i bob plentyn.

Yna bore Sul 22 Rhagfyr cynhaliwyd oedfa Nadolig yr oedolion dan arweiniad ein gweinidog, y Parchg Emyr Gwyn Evans. Eto cawsom ein tywys at y preseb drwy eitemau gan gôr y capel dan arweinyddiaeth Andrea Williams a Meleri Morris yn cyfeilio, cafwyd cerddi, carolau a darlleniadau.

Yng ngeiriau'r garol olaf wnaethom ganu yn yr oedfa:

Daeth Crist i'n plith, O llawenhawn,
a deued pawb ynghyd
i'w dderbyn a'i gydnabod ef
yn Geidwad i'r holl fyd,
yn Geidwad i'r holl fyd,
yn Geidwad, yn Geidwad i'r holl fyd.

**Edwyn Williams**





Undeb yr Annibynwyr Cymraeg

## Y Drysorfa Gynorthwyol

### Grant i ofalaeth o un neu ragor o eglwysi tuag at gydnabod y gweinidog 2025

**Y nawdd:**

Hyd at £7,500 y flwyddyn, hyd at 5 mlynedd, i gynorthwyo gofalaeth, o un neu ragor o eglwysi, i dalu'r gydnabyddiaeth gychwynnol i'r gweinidog, ynghyd â thaliadau eraill, yn unol ag argymhelliad yr Undeb am 2025;

| | |
|---|---|
| Cydnabyddiaeth | 29,989 |
| Lwfans tŷ (lle na byddo tŷ di rent a di-dreth wedi ei ddarparu) | 5,231 |

Treuliau teithio (ar y raddfa a gymeradwyir gan Cyllid a Thollau EM 45c y filltir am y 10,000 milltir cyntaf a 25c am bob milltir wedyn)

**Amodau:**

Yn achos gofalaeth o ragor nag un eglwys gall un ohonynt gyflwyno'r cais

Disgwylir i bob eglwys

- fod wedi talu ei thanysgrifiad aelodaeth i'r Undeb yn llawn
- gyflwyno Adroddiad Ariannol pob eglwys am y ddwy flynedd flaenorol fydd,
  i. yn dangos ymdrech deg ei haelodau i gyfrannu tuag at y weinidogaeth
  ii. yn dangos nad oes ganddi adnoddau ariannol sylweddol wrth gefn, nad ydynt yn ymrwymedig, y gellid eu defnyddio tuag at gynnal y weinidogaeth

Dyfernir grant pro rata

- yn achos gofalaeth gydenwadol, i eglwys/i yr Annibynwyr
- n achos gofalaeth sy'n cynnal gweinidog rhan amser

**Gweinyddu:**

Ystyrir y ceisiadau gan y Panel Arfarnu.

Ymddiriedolwyr y Drysorfa Gynorthwyol fydd goruchwylwyr y cynllun grant â'r hawl ganddynt i'w addasu a'i ddiwygio yn ôl y gofyn.

Bydd yn ofynnol cyflwyno cais yn flynyddol erbyn diwedd mis Mawrth i'w ddyfarnu erbyn diwedd mis Ebrill.

Am ffurflen gais cysyllter â'r Swyddog Gweinyddol meinir@annibynwyr.cymru 01792 795888.

*Cyhoeddwyd gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg ac argraffwyd gan Serol Print, Uned 13, Ystad Ddiwyd. Heol Milland, Castell-nedd, SA11 1NJ. Cofrestrwyd yn y Swyddfa Bost.*